# Glas

Rhif 210
Awst 2025
Llên natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol

Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd



Mursen dinlas gyffredin
25 Mehefin 2025
Alun Williams

**Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**


Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

# GWRES MAWR 2025




Sychder mawr ochr arall i'r Pennines heddiw. Bob dim yn wyrdd a llawn bywyd yma yng Nglwt y bont. Gwahaniaeth! Cynnal gweithdy addasu i newid hinsawdd ym Mhriordy Nostell heddiw (Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Y pridd fel llwch yma ac yn gorfod prynu porthiant i mewn... ym Mehefin! (ger Doncaster) **Edward Keith**



Pioden fôr yn gwarchod ei chyw rhag yr haul, Dinas Dinlle heddiw.
**Bethan Moseley**



Sglefren fôr fawr *Rhizostoma octopus* yn nofio heibio'r cwch ger Coffor Du, Llanbedrog, 11eg Gorffennaf 2025. Nifer uchel o gwmpas fel arfer yn ystod cyfnod tywydd braf a phoeth.
**Greta Hughes**




Llwythi o fwyar duon cynnar yn barod i'w casglu heddiw, ddim yn meddwl ini erioed eu casglu diwrnod cynta gwyliau'r haf o'r blaen ■ 19/7, Bethel Caernarfon.
**Sioned Mair Owen**

## Mwy mis nesaf...



Mewnfudwr o'r de mewn tywydd poeth - Gwalchwyfyn hofran (*Macroglossum stellatarum*, *Hummingbird Hawkmoth*), Pentir 3/7/2025 ■ Wedi cael 5 eleni yn ystod y gwres hyd yn hyn.



Eirin perthi / eirin tagu - 19 Gorffennaf 2025 **Derec Owen**

## Clwy Nychder

**Clwy Nychder yr Ynn yn Nychu (amser a ddengys…)?**

Mae gynnon ni goeden onnen enfawr yn ein cae. Mae gan y goeden *'Ash Die Back'* ers blynyddoedd, ond, eleni, mae hi'n edrych yn iach iawn. Mae hi'n ymladd yn ôl, dw i'n meddwl. Mae Charles yn y llun i ddangos maint. **(Dysgwr Cymraeg!) Morfa Nefyn**



Tair coeden yng ngwaelod Cwm Cynfal yn edrych yn iachach nag ers sawl blwyddyn hefyd.

**Sion Pennant Tomos**

Mae rhai ni yn edrych yn lot gwell 'leni hefyd.

**Charlotte Elizabeth Hawksworth**

Darllenais yn rhywle yn ddiweddar fod y coed ynn yn llwyddo i ymladd yr afiechyd yma rwan … **Menai Baugh**

Mi faswn i wrth fy modd yn meddwl eich bod yn iawn ond mae yna olwg truenus ar y coed ynn dwi'n eu gweld yn Arfon **Golygydd**

O'r cymaint bach 'dw i'n deall, y drafferth yw y gall y goeden fwydo, goroesi a hyd yn oed ffynnu drwy'i hymylon tra bod ei chalon yn pydru. Gochelwch a mynnwch arbenigwr i edrych arni i ganfod beth yn hollol sy'n digwydd. **Keri Morgan**

Mae gennon ni glawdd wedi tyfu mâs adref a rhan fwya o'r coed aeddfed yn ynn. Ers y *Die Back* ddod mae pob ail goeden yn iach a'r lleill yn dioddef! Sa'i di gweithio mâs os taw gwrywaidd/benywaidd, wahaniaeth wahanol rhyngddynt, neu just *coincidence*? Gobeithio wnawn nhw 'gyd oroesi a ffynnu.

**Raphaelle Fieldhouse Artist**

Mae'na arwyddion cadarnhaol. **Bethan Moseley**

Yr un peth yn digwydd efo ni ger Talywern dwi'n gobeithio **Glenys Jones**

Yr efengyl yn ôl Coed Cadw: **dolen**

**Golygydd - DB**

Mae *ash dieback* yn cael ei gario yn y gwynt a'r glaw ac yn effeithio'r dail. Bob blwyddyn pryd mae'r dail yn disgyn mae'r afiechid yn gadael hefyd. Digon posib bod y gwanwyn sych wedi cael **effaith bositif** ar y dail. **Meirion Tomos**

Gobeithio am y gora ond rhoi *'wide berth'* iddo, yn enwedig pan yn wyntog! - Mae gyda ni goeden wedi cael *dieback* ac fe doron ni y rhan fwaf o'r canghene bant rhyw dair blynedd nôl ac mae eleni yn edrych yn rhyfeddol o dda. **Beti Jones**

*Ash fightback,* newyddion da iawn i wneuthurwyr y *camán* neu'r *'hurley stick'* yn Iwerddon. **W Emrys Roberts**



# Pwmp pren Crynllwyn Bach

**Dyma'r broliant wrth ymyl llun o'r Crynllwyn Bach**

> ***Crynllwyn Bach, Abererch: Man geni y Parch John Elias. Diddorol yw sylwi ar y pwmp dŵr o flaen y tŷ, wedi ei wneud allan o fonyn coeden mae'n debyg. Byddai pympiau o'r math yma yn cael eu cynhyrchu yn iard goed Hendre Bach, Rhosfawr ger Y Ffôr.***

**Sgwn i pa mor unigryw ydi hwn gan feddwl na fuasai wedi para yr un fath â'r pwmp metal arferol?**



Fel arfer defnyddiwyd bonion Coed Llwyfen [ond gweler isod] 8 troedfedd o hyd gyda twll wedi ei ebillio trwy y canol. Cymerodd dau ddyn diwrnod cyfan i dyllu drwy un bonyn 8 troedfedd a dywedir mai hyn oedd tarddiad y dywediad *'a boring job'* … oedd yna jig i ddal y bonyn a'r *auger* tua 5 troedfedd uwchben y ddaear er mwyn cadw tyllau yn gywir trwy ganol y boncyff. Yn y llun welais i mewn llyfr roedd angen dyn pob ochr i droi yr *auger* bob yn ail. Fedrai ddim meddwl am un engraifft. Oedd gennyf lyfr wedi ei sgwennu gan saer coed yn Lloegr yn disgrifio hyn ond rhois fenthyg y llyfr a ni chefais yn ôl *(The Village Carpenter gan Walter Rose)*. Cyhoeddwyd yn 1937. Hynod o ddifyr ...

**Dan Morris**



Tel. CHWILOG 233
Established 1870

**Griffith Roberts & SONS**

Hendre Bach Sawmills
FOURCROSSES
PWLLHELI

Home Grown and Imported Timber Merchants

FENCING POSTS (Oak and Larch)
GATES and HURDLES
HAY RAKES and SCYTHE POLES
TRAILERS : LADDERS
WHEELBARROWS
WINDOWS. DOORS. STAIRCASES
in any size made to order by local craftsmen in our workshop
and

Phone: PWLLHELI 32
Established 1825

O be dwi'n gofio roedd y boncyff - oddeutu 16" ar draws, yn gorffwys ar goeden neu mainc fforchiog

**Dafydd Davies-Hughes**

Tipyn o sôn ers talwm am Cribynnau Hendre Bach

**HAY RAKES and SCYTHE POLES**

Mae Crymllwyn Bach yn Rhosfawr, ond ym mhlwyf Abererch a dim ond ychydig lathenni fyny'r ffordd o hen weithdy Hendre Bach.

**Rhian Jones**

Mae gen i lun o [bwmp pren] ym Mhenmaes. Griffith, brawd fy nhaid (William) oedd yn eu gwneud ac mae gen i gopi o erthygl yn rhywle o fel yr oedd yn eu gwneud, ynghyd a llun ohonno. Bu'n siarad hefo Morgan Humphreys ar y radio hefyd.

**Nan Parry**

**Dyma hanes pellach gwaith coed Hendre Bach a lluniau gan Nan Parry :**

- Nodyn personol yn fa'ma - rydw i'n cofio cael dod adra i'r gweithdy ar ben llwyth o goed o Crugan, Llanbedrog unwaith.
- Adran Crefftau Gwlad oedd yn tynnu lluniau ac mae'n siŵr mai eu rhai nhw ydi'r rhain [isod].
- Chefais i ddim cyfle i adnabod Griffith Roberts gan mai dyflwydd oed oeddwn i pan fu farw.
- Wn i ddim pwy wnaeth sgwennu'r erthygl yma. Wedi ei deipio yn Saesneg ar deipiadur. Mae o heb enw o gwbl. Mae llun o bwmp yn Llysbadrig hefyd.

**Oak and Larch**



*Hand drilling the trunk.*

*End view of trunk showing bore with Mr. Roberts at work.*

*Adjusting the handle. Mr. Roberts is being assisted by his nephew, Mr. R. Roberts, who has mastered the use of the tools.*

*The pump in operation. Note the flow.*




**Torchi llewys:** Rhoi pwmp dŵr yn y ddaeaer ym Mhen y Maes, Llwyndyrys, yn ystod y 1930au, ac ar y dde, Bob Roberts gyda model o bwmp pren.

**Hen grefft: 'Roedd yn waith manwl ofnadwy, a drilio efo llaw'**

Defnyddiwyd y darn ysgrifenedig i'w arddangos ym mhabell Hendre Bach mewn rhyw Eisteddfod, Cricieth rydw i'n meddwl. **NP**

**Amryw Crefftwyr Gwlad**

**Morgan Humphreys Griffith Roberts (Tad Anti Edith a brawd Taid Hendre Bach)**

## Ar y Radio o Fangor Rhagfyr 17eg 1937 8.30-9.0 p.m.

**M. Humphreys:** Diwedd y daith ydyw honno, ond cyn dyfod ati hi, beth am y pwmp pren y mae cryn lawer o son amdano.

**G. Roberts:** Nid wyf yn gwybod am neb arall sydd yn gwneyd y gwaith hwnnw heddiw. Pan fu farw yr hen saer, a arferai wneyd y pwmpiau pren, prynais ei arfau, ac yr wyf yn eu gwneyd, er yr adeg hono, ac wedi llwyddo i'w cael i weithio yn llwyddianys. Y mae y pwmp pren yn cael ei gyfrif yn rhagori mewn amryw bethau. Yn un peth, nid yw byth yn byrstio, o achos rhew, ac y mae y dŵr yn beraidd ynddo bob amser. Y mae ei oes tua pymtheg mlynedd ar hugain.

**MH:** Sut y byddwch yn ei wneud?

**GR:** Y mae yn waith dipyn yn gywrain. Byddaf yn cymeryd coeden - larchen - ac yn ei thyllu ar ei hyd. Y mae cael twll dwy fodfedd a chwarter trwyddi yn golygu gofal mawr, achos y mae'n rhaid tyllu o'r ddau ben, a chael y ddau dwll i gyfarfod ei gilydd. Weithiau rhaid cael pump, tua deuddeg troedfedd ar hugain o hyd, a'r pryd hynny bydd yn rhaid cael dwy goeden a'u ffitio i'w gilydd. Y mae yna lawer o'r pwmpiau pren yna yn gweithio trwy Ben Llŷn ac Eifionydd heddiw.



A wooden pump at Llysbadrig Farm. Fourcrosses. It functioned until 1952 and a metal pump can be seen in the foreground.

**Y mathau o goed a ddefnyddid ar gyfer saernio pympau a peipiau pren**

Mi welais i yn y llith flaenorol mai llarwydd (larch) oedd y goeden a ddefnyddiodd. Clywais heb gadarnhad bod hwnnw yn gallu gwrthsefyll gwlybaniaeth hefyd.

'Sound larch is selected for the work, its length being decided by the depth of the water level. Two lengths are sometimes needed, one being telescoped into the other. work demanding absolute accuracy to obviate leakage. In some cases shorter lengths are used to facilitate repair, the deterioration of the upper and exposed part being more rapid than that of the sunken portion. The main bore is 2¼" in diameter and the plunger box 4½". It is entirely hand drilled as shown in the

**Larix europaea** DC. (syn. L. decidua Mill.) European Larch. (Pinaceae). - Tree. Centr.Europe. Wood elastic, durable, easy to split, reddish-brown, slightly attacked by insects; used for construction work, general carpentry, water-pipes, shingles, furniture, masts, waterworks, A sugar-like product, Manna of Briançon, was formely used medicinally for chronic bladder and bronchial catarrh. It is also used in salves and plasters. Source of Venice Turpentine, Terebinthina Laricina or Terebinthina Veneta.

Ffynhonnell: Uphoff

Y goeden arferol i'w defnyddio mewn cysylltiad â dŵr oedd llwyfen (llwyfen Lloegr). Tybed oedd y rhywogaeth hon yn rhy brin yn y gorllewin.

Elm water mains were used extensively in England in the seventeenth and eighteenth centuries and created a major demand for elm trunks. These were trimmed for straightness of bole as mentioned earlier in this chapter. The trunks were formerly bored by hand using a large auger. The sound of the boring, audible over great distances, was a distinctive countryside sound. Later, machine bored pipes became available. The trunks were cut into sections about 2 m long. The pipes were tapered at one end so that the narrow end of one pipe could be driven into the wide end of another.[59] When laid, holes were drilled at intervals and plugged for fire emergencies, the plugs being drawn when water was needed.

Towns known to have had elm water mains are mostly in or near a region where English Elm is frequent. It may be, in some cases, that it was the demand for water pipes that led to elm being grown locally.

Elm pipes were not only used for carrying water. At Droitwich (HW) they were used to convey brine in the salt works.[60]

Wooden water pumps were also mainly made of elm. Both the pump casing and the pump plunger would be of this timber. Such pumps were widely used for lifting water from wells for domestic use.[61] They were also used to keep mines dry and to dispose of ship bilge.

Ffynhonnell: Richens - Elm

## Pwmp pren Crynllwyn Bach

Coed *tamarack* a ddefnyddid yn Nghanada i dyllu peipiau a phwmpiau... **DM**






Llun Edward Keith

Pwmp haearn cyffredin ers talwm

# Arysgrif ar Bont Fadog

Rhywun yn gwybod hanes y garreg yma ar Bont Fadog, uwchben Dyffryn Ardudwy? **Ann Temp**




*"Bridge Marker set in south bridge parapet of Pont Madog, Afon Ysgethin. Dyffryn Ardudwy parish. Inscribed W V (William Vaughan / 1762 / H Ed (H Edward) / SAER (mason). Roadbridge on the original medieval drovers' route from Bwlch y Rhiwgr to Bontddu and Dolgellau. Some improvements were made to the route in 1760 and recorded on an inscribed tablet".* **Dewi Lewis**

# Ymaflud codwm



Sgwarnogod yn cael scrap, Sir Fon heno. **David Jones**

# Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Glas

Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

# Beti Ty Mwd

**Elizabeth Pritchard (Beti Ty Mwd), Ty Mŵd, Dinas Dinlle**

**Cyfraniadau arbennig o dan y llun yma o Elizabeth Pritchard, Ty Mŵd, Dinas Dinlle dyddiedig 1910.**

**(Trwy law Ifor Williams gyda diolch)**



**Sylwadau difyr ar Hiraeth Gogledd Cymru**:

Mae yna Tai Mŵd hefyd yn Abergwyngregyn yn nghysgod y gaer ganoloesol yng nghanol y pentref. O gofio mor agos ydi'r tai i fŵd hynafol (y *moat* gwreiddiol) yn y ddau achos - Ty Mŵd Dinas Dinlle yn nghysgod y gaer honno - onid *mŵd* yw'r ystyr tebycaf ac nid *mwd* fel mae'r map yn ei roi i adlewyrchu yr ynganiad, anarferol ond penodol, i enw'r tŷ. **Golygydd**

Tybed mai ty wedi ei godi o fwd oedd yr un yn Ninas Dinlle. Nifer o rhain o gwmpas… adfail yn Llangwnadl… ty Mwdwal, Caernarfon rhywle yng nghyffiniau Gipsy Hill ers talwm. **Ifor Williams**

… lawr y lôn sydd yn troi i'r *camp site* wrth ochor y siop *dining* [?] y lôn yr holl ffordd i lawr mae o ar y dde. Dim yn saff os mai ty mad [*sic*, mwd ?] ydio rwan ta Hafod. Bu fy mam a'n nhad yn byw yno am flynyddoedd cyn symud i Bontllyfni yn 1953. Wil Ty mad [sic] oedda nhw yn galw dad. **Nerys Dumbell**

Os 'Hafod' ydi'o rwan, enghraifft efallai o barchuso yn sgil drysu mŵd a mwd (pwy sydd isho byw mewn tŷ wedi ei enwi yn Tŷ Mwd - er bod yna ddigon o rheiny ym Mhenllŷn - gweler IW uchod). **Golygydd**




Ty'n Mŵd, Llandwrog **Richard Williams**


## Mwyar cynnar ?



Wedi eu casglu bore 'ma mae'r mafon duon yn cychwyn. Wrth fy modd yn eu casglu - 27 Gorff. 2025

**Linda Jones**

**Dyma graff (a'i ddata) yn dangos dosbarthiad misol cofnodion HEL MWYAR yn y Tywyddiadur:**
**(erbyn 2020)**




Dolen - Bwletin Llên Natur 151 (tudalen 3)

# Siarad gyda'n gilydd




- **Rhannu lluniau**
- **Trafod achosion amgylcheddol**
- **Mynegi barn**
- **Gofyn ac ateb cwestiynau am natur**

Lluniau Helen Flook - Dyluniad Dominig Kervegant

**BETH AM YMYNO Â'R SGWRS ?**

facebook

www.facebook.com/groups/CymunedLlenNatur